# ROWLAND(S), ELLIS (1621 - 1691), Ymneilltuwr cynnar

**Enw:** Ellis Rowland (S)
**Dyddiad geni:** 1621
**Dyddiad marw:** 1691
**Rhiant:** Thomas Rowland
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Ymneilltuwr cynnar
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1621 yn fab i Thomas Rowland, ' yeoman,' Biwmares; yr oedd ganddo frawd o'r enw Richard Rowlands. Bu yn ysgol ramadeg Biwmares, ac aeth, fis Gorffennaf 1639, 'yn 18 oed,' i Goleg S. Ioan, Caergrawnt, ond ni raddiodd (Venn, *Alumni Cantabrigienses*). Clywir nesaf amdano ym mywoliaeth Llanelidan, a pharhawyd ef ynddi (1653) gan brofwyr y Weriniaeth. Bu yno hyd 1657, pan gafodd blwyfi Clynnog-fawr a Llanwnda. Dywed Samuel Palmer (*Nonconformists' Memorial*) ei fod hefyd, hyd yn oed at 1660, yn warden Rhuthyn, ond y mae'n anodd credu hyn - dywed Palmer bethau eraill na thâi mo'u credu, megis mai Bedyddiwr oedd Rowland (a ddisgrifir fel ' Presbyterian ' yng nghofnod swyddogol 1672), ac iddo farw tua Chaerlleon yn 1683. Bwriwyd ef allan o'i blwyfi yn 1660 ('llusgwyd ef i lawr o'r pulpud ' meddai Palmer); cymerwyd ef i'r ddalfa yn 1661 a'i chwilio am arfau. Aeth i Gaernarfon i fyw; yn ôl Palmer eto, yr oedd ei wraig yn cadw ysgol yno i ferched, a Rowland yn tynnu patrymau i'r merched eu copïo, ond yr unig beth sy'n sicr yw ei fod yn ei ddisgrifio'i hunan yn ei ewyllys (sydd heddiw yn y Llyfrgell Genedlaethol) fel 'now a Teacher in a private Grammar School.' Yn 1666 enfyn Philip Henry gopïau o *Alwad* Baxter iddo i'w dosbarthu. Trwyddedwyd ef â'i d dan Oddefiad 1672, ond nid oes air amdano yn adroddiad Henry Maurice yn 1665, nac yn adroddiad y Dr. Daniel Williams i Fwrdd y Gronfa yn 1690. Edrydd John Pinney (Ymneilltuwr arall a drowyd allan yn 1660) iddo aros gyda Rowland yng Nghaernarfon yn Ionawr 1688 (*Letters of John Pinney*, 1929). Gwnaeth Rowland ei ewyllys fis Gorffennaf 1688, mewn gwaeledd. Nid ymddengys oddi wrthi ei fod mewn unrhyw galedi; y mae'r cymynroddion mewn arian bron yn £20 (efallai £160–200 o'n harian ni). Cofiodd am dlodion Biwmares a Chaernarfon, am ei hen ysgol (gadawodd iddi 'my Cooper's *Dictionary*, with 5s. to have it re-bound'), am ei geraint, ac am geraint ei wraig. Gellid meddwl, gan nad enwir mohoni, ei bod hi wedi marw, ac awgryma popeth mai merch o Ddyffryn Clwyd oedd hi; bu, ganddi 'great *Bible* ' a roddwyd iddi gan Thomas Jones, rheithor Clocaenog 1672-1705, a gadawodd Rowland 'two pieces of gold' a chwe llyfr o'i lyfrgell i Thomas Jones. Yr oedd ei bapurau i fynd i Richard Edwards o Nanhoron. Ei frawd Richard oedd ysgutor yr ewyllys, ac y mae dau ' Rowlands ' arall ymhlith y tystion. Profwyd yr ewyllys 8 Mehefin 1691, felly gellir barnu i Rowland farw yn 1691 neu'n ddiweddar yn 1690.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


T. Richards, *Religious Developments in Wales, 1654–1662* (1923) (mynegeion)

a'r ffynonellau eraill a enwyd uchod

Dibynnodd Lyon Turner ac Alexander Gordon yn rhy ffyddiog ar S. Palmer

y mae'r recordiau swyddogol a ddefnyddiodd Richards (a'r ewyllys) yn sadiach tystiolaeth


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804769


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cfrannu